Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

gwneud gwahaniaeth yng Nghymru

eaga

Adroddiad Blynyddol 2006/07

gwnaed gwelliannau effeithlonrwydd mewn 13,739 o gartrefi yng Nghymru yn ystod 2006/07

gwneud gwahaniaeth

Croeso

Rhagair y Gweinidog gan Jane Davidson AC

"Mewn cam mawr arall gall pawb sy'n 80 oed a throsodd gael cymorth yn awr gan y Cynllun waeth beth fo'u hamgylchiadau."

Rwy'n arbennig o falch o gyflwyno 6ed Adroddiad Blynyddol y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yng Nghymru am ei fod yn delio â blwyddyn lle y gwnaeth y cynllun yn well na'r disgwyl. Mae mwy o gymorth nag erioed o'r blaen ar gael yn awr o dan y Cynllun gyda lefelau grant unigol yn cael eu cynyddu tua 33%, ac mae hyn yn ogystal â £10m ychwanegol sy'n cael ei ddyrannu i'r Cynllun yn ystod eleni a'r flwyddyn nesaf. Caiff y buddsoddiad mawr hwn yn y Cynllun ei ddefnyddio i helpu cartrefi pensiynwyr yn benodol i gadw'n gynnes mewn cartrefi sydd yn fwy effeithlon o ran ynni. Mewn cam mawr arall gall pawb sy'n 80 oed a throsodd gael cymorth yn awr gan y Cynllun waeth beth fo'u hamgylchiadau. Yr her bellach yw cyrraedd y cartrefi hynny, a'u hannog i wneud cais i'r Cynllun am y cymorth y mae ganddynt hawl i'w gael.

Wrth i'r Cynllun fynd o nerth i nerth, gyda mwy na 75,000 o gartrefi bellach yn cael cymorth, am gyfanswm cost o tua £74 miliwn, mae'r cartrefi sy'n weddill yn cynnwys mwy o'r bobl hynny y bydd yn anos eu cyrraedd neu yn ddrutach eu trin. I gydnabod hyn, mae nifer o gynlluniau peilot ynni adnewyddadwy wedi cael eu cefnogi ledled Cymru gydag arian gan HEES. Bydd y cynlluniau peilot yn rhoi adborth ar gostau gosod a rhedeg y dechnoleg, ynghyd â gwybodaeth am unrhyw broblemau ymarferol y daethpwyd ar eu traws wrth osod y dechnoleg. Efallai mai'r peth pwysicaf yw y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth gan y deiliaid cartrefi eu hunain o ran sut y maent wedi addasu i'r dechnoleg newydd a beth oedd eu barn o ran pa mor hawdd ydoedd i'w defnyddio, pa mor effeithiol oedd y dechnoleg o ran cost ac ati. Bydd y wybodaeth ymarferol hon yn caniatáu i ni roi ystyriaeth bellach i dechnolegau adnewyddadwy, nid yn unig am resymau gwerth am arian ond hefyd o safbwynt y defnyddwyr, cyn eu cynnwys o bosibl yn y Cynllun.

Er mai rhaglen tlodi tanwydd yw HEES yn bennaf yn hytrach na rhaglen arbed carbon, bydd gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni yn aml yn golygu y bydd gan y cartref ôl-troed carbon is yn ogystal â biliau tanwydd rhatach. Mae'r buddsoddiadau a ariennir gan HEES yn gwneud gwelliannau hirdymor i effeithlonrwydd ynni eiddo cartrefi cymwys. Os yw'r sawl sy'n cael y grant yn symud o'r eiddo, bydd deiliaid yr eiddo yn y dyfodol yn parhau i elwa ar y gwelliannau a bydd cyflwr cyffredinol a pherfformiad ynni stoc tai Cymru yn parhau i wella.

Yn ystod y cyfnod rhwng 2000 a 2006 rydym wedi asesu bod yr arbedion carbon o HEES tua 21,307 tunnell o garbon y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn parhau i bwysleisio llwyddiant y Cynllun a'r effaith y mae'n ei chael ar bob ardal yng Nghymru. Yr her yw adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy barhau i ddatblygu cymorth sy'n diwallu anghenion y cartrefi rydym yn ymrwymedig i'w helpu. Mae'r buddsoddiad ychwanegol, lefelau grant uwch a gwelliannau yn y sylw a roddir i'r Cynllun yn parhau i ddangos ein hymrwymiad i helpu rhai o aelodau ein cymunedau sydd fwyaf agored i niwed.

Jane Davidson AC

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref

Cyflwyniad gan Hayley Wildmore, Cyfarwyddwr, eaga Cymru

"Hon fu'r flwyddyn orau erioed i'r Cynllun, sydd bellach yn gwasanaethu mwy o gartrefi, gydag ystod fwy amrywiol o anghenion ac amgylchiadau, nag erioed o'r blaen."

Mae 'Gwneud Gwahaniaeth' yn bennawd priodol ar gyfer Adroddiad Blynyddol Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) 2007. Gan weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid ledled y wlad, rydym yn falch o fod wedi sicrhau gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni eleni i **13,739** o ddeiliaid cartrefi sy'n agored i niwed.

Hon fu'r flwyddyn orau erioed i'r Cynllun, sydd bellach yn gwasanaethu mwy o gartrefi, gydag ystod fwy amrywiol o anghenion ac amgylchiadau, nag erioed o'r blaen. Mae newid bywydau mwy na 13,000 o gartrefi yng Nghymru tra'n parhau i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o gynhesrwydd fforddiadwy, yn gyflawniad rhyfeddol - fodd bynnag, mae mwy i'w wneud.

I ddeall y niferoedd hyn, yn ystod 2006/07, cyflawnodd HEES y canlynol:

- Mwy na £19.6m wedi ei wario ar welliannau effeithlonrwydd ynni cartref
- £5m ychwanegol wedi ei wario ar welliannau i bobl dros 60 oed yng Nghymru
- Gosod insiwleiddied wal geudod mewn 3,418 o gartrefi
- Inswleiddio 4,919 o lofftydd
- Gosod 4,309 o foeleri newydd
- Gwneud 261 o atgyweiriadau gwresogi

Mae gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau lleol ledled Cymru drwy arloesi ac addasu i ddiwallu anghenion cwsmeriaid sy'n agored i niwed wedi bod yn un o nodau canolog y Cynllun erioed. Nid yw'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn wahanol, wrth i HEES barhau i ddatblygu er mwyn rhoi nifer gynyddol o gyfleoedd i ddeiliaid cartrefi elwa ar gymorth grant ymhellach.

Dros flwyddyn ddiwethaf y cynllun mae'r datblygiad hwn wedi golygu:

- Gwnaeth newidiadau i'r meini prawf cymhwyso ganiatáu i bobl dros 80 oed fod yn gymwys i gael HEES Plws waeth beth fo'u hamgylchiadau o ran budd-daliadau.
- Mae HEES wedi rhoi arian ar gyfer rhaglenni peilot ynni adnewyddadwy arloesol mewn ardaloedd sydd wedi bod yn anodd eu trin yn draddodiadol.
- Mae pobl dros 60 oed yng Nghymru wedi elwa ar gynnydd yn y macsima grant rhannol i £500
- Cyflwyno grant i ariannu gwres canolog olew

Gosod inswleiddiad wal geudod mewn 3,418 o gartrefi yn ystod 2006/07 gwneud gwahaniaeth

Mae'n rhoi boddhad arbennig i mi bod y tri chynllun peilot ynni adnewyddadwy wedi'u cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Ynni Adnewyddadwy Prydain eleni, sy'n cydnabod yn glir bod gweithio mewn partneriaeth a dangos parodrwydd i addasu yn gallu bod yn effeithiol o ran gweithredu atebion carbon isel i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd lle ceir y nifer fwyaf o gartrefi anodd eu trin.

Bu datblygiad graddol HEES i gynnwys mesurau newydd, ynghyd â'r broses o ehangu'r meini prawf cymhwyso yn fodd i lawer mwy o gartrefi gael eu codi allan o dlodi tanwydd, lle na fyddent wedi bod yn rhan o gylch gwaith y rhaglen yn flaenorol. Mae'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i bobl dros 60 oed a thros 80 oed er enghraifft, wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn ymwybyddiaeth ac yn y galw am welliannau effeithlonrwydd ynni.

Wrth gwrs, ni fyddai HEES wedi cyflawni'r un o'i ganlyniadau gwych eleni heb gymorth a chefnogaeth barhaus ein partneriaid. Roedd yn bleser gan eaga ccc barhau i weithio gyda chyfryngwyr a chynrychiolwyr cymunedol y gellir ymddiried ynddynt i helpu i godi ymwybyddiaeth ac annog yr henoed, teuluoedd ifanc, grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau gwledig i fanteisio ar y cynllun. Rydym yn ddiolchgar i chi am eich arbenigedd a'ch cymorth parhaus.

I orffen ar nodyn o rybudd, mae llwyddiant anhygoel HEES yn ystod 2006/07 a'r canlyniadau nas gwelwyd eu bath o'r blaen yn peri problem i ni wrth symud ymlaen. Mae'r galw am y Cynllun hefyd yn cyrraedd lefelau nas gwelwyd eu bath o'r blaen, wrth i'r stori gadarnhaol am Gynllun llwyddiannus ledaenu ledled Cymru, ac yn wir, y tu hwnt iddi. Er mwyn i ni barhau â'n gwaith da hyd yma a chynnal ymgyrch gadarn yn y frwydr yn erbyn tlodi tanwydd, mae'n rhaid i ni sicrhau y gellir ateb y galw hwn a bod modd cynnal ein cynnydd hyd yma, yn ogystal â'i ymestyn i'r dyfodol.

Dyfodol heb dlodi tanwydd.



Hayley Wildmore
Cyfarwyddwr, eaga Cymru

HEES yn gweithio mewn partneriaeth

Mae eaga yn parhau i weithio ar lefel genedlaethol a lleol ledled Cymru i gyfleu neges HEES

Bu ymdrechion parhaus ein rhwydwaith cenedlaethol o bartneriaid cyfeirio yn allweddol i lwyddiant HEES wrth gyflawni gwelliannau i fwy na 75,000 o gartrefi yng Nghymru hyd yma.

Credwn yn gryf mai llunio cynghreiriau a gweithio'n agos gyda sefydliadau 'ar lawr gwlad' yw'r dull mwyaf effeithiol o hyd o gyrraedd rhai o'r cymunedau mwyaf diamddiffyn yr effeithir arnynt gan dlodi tanwydd.

Mae'r partneriaid y buom yn gweithio gyda hwy dros y 12 mis diwethaf wedi bod yn rhan allweddol o lwyddiant y cynllun a dros y blynyddoedd i ddod, byddwn yn parhau i ddatblygu'r cydberthnasau hyn a'u meithrin.

Gofal ac Atgyweirio

Gofal ac Atgyweirio Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n gweithio i sicrhau y gall pob person oedrannus fyw mewn cartrefi diogel a chynnes. Gall y sefydliad ddysgu am anghenion pobl hŷn drwy ei waith Asiantaethau Gofal ac Atgyweirio lleol ledled Cymru.

O ganlyniad i waith yr asiantaethau gofal ac atgyweirio lleol hyn ac ymrwymiad diflino eu staff, cafodd eu cleientiaid werth mwy na **£300,000** o welliannau effeithlonrwydd ynni megis gwresogi, inswleiddio a gwrth-ddrafftio drwy gyfeiriadau at HEES.

Motabilty

Rhoddodd Motabilty – y cynllun ceir blaenllaw i'r anabl - gymorth i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn ystod y flwyddyn drwy helpu i hyrwyddo HEES i'w haelodau. O ganlyniad i ymgyrch aeaf lwyddiannus, gwnaeth mwy na 3,000 o'u haelodau yng Nghymru gais am gymorth grant a hyd yma maent wedi elwa ar werth mwy na **£2,000,000** o welliannau effeithlonrwydd ynni.

Iechyd drwy Gynhesrwydd

O ganlyniad i bartneriaeth lwyddiannus â chynllun Iechyd drwy Gynhesrwydd Bro Morgannwg, cyfeirir ymgeiswyr cymwys at HEES. Ceir astudiaeth achos isod.

Canfu'r Cydgysylltydd Iechyd drwy Gynhesrwydd fod Mr Macarthur (uchod) yn gymwys i gael cymorth o dan HEES a gwnaeth y cais ar ei ran. Ar ôl ymweliad cychwynnol gan un o'n haseswyr, atgyweiriwyd system gwres canolog Mr Macarthur a gosodwyd inswleiddiad atig, gwaith gwrth-ddrafftio a larymau mwg.

Gofal Piau hi y Gaeaf Hwn

Unwaith eto, bu'r ymgyrch Gofal Piau hi y Gaeaf hwn yn llwyddiannus wrth hyrwyddo HEES i fwy na 30,000 o gartrefi. Gan weithio gyda phartneriaid ledled Cymru, dosbarthodd Age Concern becynnau gwybodaeth a oedd yn cynnwys cyngor ymarferol ar aros yn iach ac yn gynnes yn ystod misoedd y gaeaf.

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ledled y wlad, a arweiniodd at ymgyrch gadarn i godi ymwybyddiaeth o HEES a materion sy'n ymwneud â chynhesrwydd fforddiadwy. Nododd adborth cleientiaid a gychwynnwyd gan Age Concern Cymru fod cynnwys llyfryn HEES yn y pecyn gwybodaeth wedi cael derbyniad da iawn.

Boddhad cwsmeriaid

Mae ymrwymiad llwyr i foddhad cwsmeriaid yn amlwg ym mhob un o'n staff ac mae'n dylanwadu ar bob agwedd ar ein gweithrediadau yng Nghymru. Drwy ddysgu parhaus, rydym wedi datblygu rhaglen boddhad gynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar y meysydd sy'n bwysig i'n cwsmeriaid. Mae'r ffaith ein bod wedi mabwysiadu diwylliant o ragoriaeth gwasanaeth yn sicrhau bod pob aelod o'n staff yn helpu i greu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid tuag at bopeth a wnawn.

Bob blwyddyn, rydym yn comisiynu cwmni mesur barn cwsmeriaid blaenllaw i gynnal arolwg o fwy na 3,000 o gwsmeriaid ledled Cymru, gan ddefnyddio'r canlyniadau i lywio blaenoriaethau rheoli yn ein cyfarfodydd wythnosol.

Yn ystod 06/07, cawsom fwy na 1,000 o ymatebion ar gyfradd ymateb o 40%. Mae'r gyfradd ymateb hon yn galonogol iawn, yn arbennig o gofio graddau'r gweithgarwch cyffredinol, gan fod cyfradd ymateb uchel fel arfer yn arwydd o lefel uchel o foddhad cwsmeriaid.

Yn seiliedig ar eu profiadau o HEES, gofynnwyd i sampl o'n cleientiaid, '*ar raddfa o 1 i 10, lle bo 1 yn annhebygol iawn a 10 yn debygol iawn, pa mor debygol ydych chi o argymell HEES i aelod o'ch teulu neu gyfaill agos?*'

Medi 06	cyfartaledd o	**9.6**
Ionawr 07	cyfartaledd o	**9.51**
Mawrth 07	cyfartaledd o	**9.71**

Lleihaodd y ganran o brofiad cwsmeriaid llai na boddhaol o 2% i 1% hefyd.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gyflawni rhagoriaeth barhaus o ran gwasanaeth, mae unrhyw gwynion yn destun dadansoddiad o wraidd y broblem i benderfynu ar y pwynt ysgogi ar hyd taith y cwsmer a arweiniodd at anfodlonrwydd.

Unwaith y nodir yr achos, mae gan bob un o'n staff yr awdurdod i gymryd perchenogaeth i ddatblygu a gweithredu datrysiad addas. Mae adborth parhaus yn sicrhau ein bod yn deall p'un a yw'r camau gweithredu a gymerwyd wedi arwain at brofiad cadarnhaol i gwsmeriaid.

Beth oedd y peth gorau a wnaethom yn ystod eich cais am HEES?

- Mae'n dda gweld bod 11% o gwsmeriaid o'r farn bod y broses osod wedi bod yn lân ac yn daclus, ac roedd yr esboniadau'n dda hefyd.
- Canfu'r mesuriadau blaenorol ar HEES Cymru i fwyafrif y cwsmeriaid ddweud mai'r peth gorau oedd 'popeth' ac felly mae gweld hyn eto yn y mesur hwn yn wych.



Dyfodol mwy gwyrdd i Gymru

Yn dilyn menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried sut y gellid defnyddio technoleg adnewyddadwy i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, ymestynnwyd rhaglen HEES i gwmpasu'r broses o ariannu tri chynllun unigryw mewn ardaloedd gwledig anodd eu gwresogi, lle bo tebygolrwydd uwch o ddod ar draws tai anodd eu trin.

O ganlyniad, cafodd cwsmeriaid yn Sir y Fflint, Sir Fynwy a Phowys oll fudd o gartrefi cynhesach yn sgîl yr arian ychwanegol. Mae'r ffaith bod y tair menter wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau clodwiw Ynni Adnewyddadwy Prydain yn arbennig o galonogol.

Nododd Cyngor Sir y Fflint fod nifer o gartrefi ym mhentref Cilcain yn gymwys i gael grantiau o hyd at £3,600 o dan HEES i gael ffynonellau ynni adnewyddadwy.

Bellach, darperir gwres i hyd at wyth cartref yng Nghilcain drwy bympiau gwres o'r ddaear, sy'n troi gwres a gaiff ei storio yn y ddaear i wresogyddion neu gyflenwad dŵr poeth.

Gan ddefnyddio dulliau gosod profedig, mae pympiau gwres o'r ddaear yn ffordd brofedig o ddarparu ynni fforddiadwy a glân, sy'n hawdd ei ddefnyddio, sy'n helpu i leihau gollyngiadau carbon.

Cafodd cartrefi ym mhentref Y Clas-ar-Wy ym Mhowys fudd hefyd, gan i systemau dŵr poeth solar gael eu gosod mewn wyth o fyngalos sy'n eiddo i'r cyngor a saith cartref preifat. Mae gosodiadau paneli thermol solar yn troi gwres o'r haul a gall ddiwallu hyd at 60% o anghenion dŵr poeth cartrefi, fel arfer.

Heb fynediad i brif bibellau nwy, nid yw ffynonellau gwres traddodiadol bob amser yn opsiwn i lawer o gymunedau gwledig ond drwy weithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, mae technoleg thermol solar a phympiau gwres o'r ddaear bellach yn ddewis amgen cost-effeithiol ac ymarferol.

Bydd y cynlluniau peilot diweddaraf hyn yn darparu adborth gwerthfawr ar gostau gosod a rhedeg y dechnoleg adnewyddadwy amgen, ynghyd â gwybodaeth am unrhyw broblemau ymarferol a gododd wrth osod y dechnoleg.

Gwirio'ch Hawl i Gael Budd-daliadau

Gwasanaeth ffôn sy'n darparu asesiadau cynhwysfawr o hawl unigolion i gael ystod lawn o fudd-daliadau lles y DU.

Mae gwirio budd-daliadau yn ddull pwysig o ran ymdrechion HEES i leihau lefel y tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae incymau isel yn achos amlwg o dlodi tanwydd ac mae'n hanfodol bod cartrefi'n hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt yr hawl iddynt.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi llwyddo i gwblhau **2,752 o Wiriadau o'r Hawl i Gael Budd-daliadau** gan nodi cyfanswm o **£1.6m** o fudd-daliadau nas hawliwyd a darparu cynnydd wythnosol mewn incwm o **£18.69** ar gyfartaledd.

Y budd-daliadau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd Credyd Pensiwn (39%) a Budd-dal Treth Gyngor (36%).

Astudiaeth Achos Cleient

Gwnaeth Mrs S o Abertawe, sy'n ddynes sengl 71 oed, gais i HEES ym mis Rhagfyr 2006 a chafodd fesurau diogelwch a boeler newydd.

Roedd Mrs S mor falch ar y cynllun iddi fynd i ddigwyddiad a gynhaliwyd gan ei Haelod Cynulliad lle y câi'r cynllun ei drafod. Roedd cynghorwyr Gwirio'r Hawl i Gael Budd-daliadau yn y digwyddiad a chynigiwyd gwiriad i Mrs S ac fe'i derbyniodd. Nododd y cynghorwr y dylai'r ddynes fod yn cael bron £7.00 yr wythnos (mwy na £350 y flwyddyn) o Fudd-dal Treth Gyngor ac argymhellodd y dylai wneud cais.

Ffoniodd Mrs S yn ôl i ddweud wrthym y bu ei chais yn llwyddiannus ac iddi hefyd gael taliad ôl-ddyddiedig o fwy na £350.00. Dywedodd Mrs S "Byddai'n dda pe bai pawb rwyf yn siarad â hwy yn gallu bod fel y cynghorydd y siaradais â hi. Esboniodd bethau mor dda i mi."

Cwblhawyd 2,752 o Wiriadau o'r Hawl i Gael Budd-daliadau yn llwyddiannus gan nodi cyfanswm o £1.6m o fudd-daliadau nas hawliwyd. gwneud gwahaniaeth

Y pum budd-dal a argymhellir amlaf

	Budd-daliadau	Nifer y bobl a argymhellwyd
1	Credyd Pensiwn	643
2	Budd-dal Treth Gyngor	590
3	Lwfans Byw i'r Anabl/Lwfans Gweini	95
4	Credyd Treth Plant	73
5	Credyd Treth Gwaith	63

Y cynnydd wythnosol a nodwyd, ar gyfartaledd

	Budd-daliadau	Swm yr wythnos
1	Lwfans Byw i'r Anabl/Lwfans Gweini	£36.95
2	Lwfans Gofalwyr	£41.68
3	Credyd Treth Plant	£28.66
4	Budd-dal Tai	£24.26
5	Credyd Treth Gwaith	£23.37

Y cynnydd wythnosol uchaf o ran budd-daliadau a argymhellir

	Budd-daliadau	Swm yr wythnos
1	Credyd Pensiwn	£12,192.49
2	Budd-dal Treth Gyngor	£5,192.78
3	Lwfans Byw i'r Anabl/Lwfans Gweini	£3,511.50
4	Credyd Treth Plant	£1,950.59
5	Cymhorthdal Incwm/Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm	£1,720.77

Cyfleu'r neges

Cael cymorth gwleidyddol i hyrwyddo HEES

Mae meithrin cydberthnasau - â sefydliadau lleol, grwpiau buddiant cymunedol, elusennau a ffigurau cyhoeddus amlwg lleol megis Cynghorwyr ac Aelodau o'r Cynulliad - wrth wraidd y gwaith i godi ymwybyddiaeth ac annog pobl i fanteisio ar HEES.

Defnyddiwn sawl dull o ryngweithio â'n rhanddeiliaid i gyflawni'r nod cyffredin hwn. Un o'r dulliau mwyaf effeithiol yw'r broses o weithredu 'Tudalennau Seneddol' dwyieithog i ACau ac ASau o Gymru, a gaiff eu teilwra'n benodol i'w hetholaeth ac sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt am HEES yn cynnwys datganiad i'r wasg argymelledig i werthu'r llwyddiant, er mwyn annog rhagor o etholwyr i wneud cais. O ganlyniad i'r ffaith y defnyddir rhif ffôn unigryw, gwyddom o ddadansoddiadau y bydd etholwyr yn gwneud cais pan fydd eu AC yn cadarnhau buddiannau'r cynllun.

Mae gwaith rhagweithiol gydag Aelodau'r Cynulliad i hyrwyddo HEES yng Nghymru ymhellach yn bwysig hefyd. Gall hyn fod ar ffurf sesiynau briffio'r Cynulliad i gynghori ar unrhyw newidiadau i'r cynllun neu ddiweddariadau, hyd at arddangos mewn Cynadleddau a chwrdd â gwleidyddion. Rydym hefyd wrth law i gwrdd ag Aelodau i drafod unrhyw faterion sydd gan etholwyr, o bosibl, o ran y cynllun. Mae'n bleser gennym hysbysu bod adborth yn gadarnhaol, ar y cyfan, ac yn cefnogi'r gwahaniaeth enfawr y mae'r cynllun yn ei wneud.

Y gweithgarwch mwyaf rheolaidd o lawer lle yr ymgysylltwn ag ASau yw'r digwyddiadau 'Ymwybyddiaeth o Ynni' neu 'Gwirio'r Hawl i gael Budd-daliadau', a gynhelir gan Aelodau'r Cynulliad. Cynhelir y digwyddiadau hyn mewn canolfannau cymunedol neu leoliadau hygyrch eraill ac fe'u hategir gan grwpiau buddiant lleol eraill, megis Gofal ac Atgyweirio, Age Concern a'r Gwasanaeth Tân. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig 'siop un cam' i etholwyr ac mae'r ffaith bod yr ACau yn bresennol yn sicrhau bod y neges o ran HEES yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol iawn i'r gymuned ehangach.

"Mae'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn allweddol i sicrhau bod cartrefi'n fwy cynnes, yn fwy effeithlon o ran ynni ac yn fwy diogel. Mae'r cynllun fforddiadwy hwn, sydd wedi'i anelu at deuluoedd â phlant ifanc, pobl dros 60 oed a phobl anabl neu bobl â salwch cronig, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn cymunedau lleol ledled Cymru. Yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ynni, mae HEES yn galluogi unigolion i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i lefelau gollyngiadau carbon Cymru. Gall y newid fod yn fawr neu'n fach, o inswleiddio ceudod wal i osod golau ynni isel."

Helen Northmore EST

"Rhaglen HEES yw'r prif ddull o liniaru Tlodi Tanwydd yng Nghymru o hyd. Yn sgîl ymestyn meini prawf cymhwyster y llynedd a'r ffaith bod HEES bellach yn ystyried yr henoed, mae mesurau hanfodol yn hygyrch i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae eaga hefyd wedi dangos eu bod yn meddwl ymlaen o ran yr her i gyflawni gwres fforddiadwy drwy gefnogi'r tri chynllun peilot ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Blwyddyn lwyddiannus yn wir."

Nia Prys-Williams Cyngor Sir y Fflint

"Mae Golwg ar Ynni yn falch i barhau ei phartneriaeth hir sefyll gyda'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref. Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o osod mesurau gwresogydd ac inswleiddio sydd yn newid bywyd, ar fudd miloedd o bobl."

Wendy Davies Energywatch

Barn ein cwsmeriaid...

"Hoffwn ddiolch i chi a'ch tîm am y gwaith ardderchog a wnaed yn fy nghartref. Ni allaf gyfleu pa mor ddiolchgar yr wyf. Unwaith eto, diolch yn fawr iawn i chi."

Mrs Davies o Rondda Cynon Taf

"Ar ran fy ngwraig a minnau, hoffwn gofnodi ein diolch i chi a'ch tîm am y gwaith ardderchog a wnaed o dan gynllun HEES Cymru. Roedd y contractwyr yn wych ym mhob agwedd a chyflawnwyd y gwaith gyda chyn lleied o anghyfleustra â phosibl."

Mr Chapman o Ddinas Powys

"Teimlaf fod yn rhaid i mi ddweud wrthych pa mor fodlon yr wyf ar y mesurau effeithlonrwydd ynni a roddwyd ar waith yn fy nghartref; mae'r gwahaniaeth mewn tymheredd yn anhygoel."

Mrs Lloyd o Wynedd

"Diolch yn fawr iawn, rydym wrth ein bod. Rydym mor gynnes a chlyd bellach. Ni allaf i na'm gŵr gredu'r gwahaniaeth, felly diolch i chi unwaith eto."

Mrs L o Wrecsam

"Ysgrifennaf atoch i ddiolch i chi ac i ddangos fy ngwerthfawrogiad o'r grant a ddyfarnwyd i mi ar gyfer gwres canolog yn fy nghartref. Roedd y dynion a gyflawnodd y gwaith yn lân ac yn daclus ac yn gwrtais iawn. Felly, diolch yn fawr iawn unwaith eto."

Mrs Davies o Hwlffordd



Cyflawniadau'r cynllun 2006/07

Mynegai tablau

Tabl 1 Uchafbwyntiau'r cynllun

Tabl 2 Ceisiadau cymwys

Tabl 3 Proffil buddiannau i gwsmeriaid HEES

Tabl 4 Proffil buddiannau i gwsmeriaid HEES Plws

Tabl 5 Mesurau yn ôl y math o ddaliadaeth/eiddo

Tabl 6 Gwelliannau'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) o dan HEES Cymru

Tabl 7 Mesur a gwariant yn ôl ardal Awdurdod Lleol

Tabl 8 Mesur a gwariant - rhaniadau

Tabl 1 - Uchafbwyntiau'r cynllun

Ceisiadau	**27,796**
Ceisiadau cymwys a gaiff eu prosesu yn ystod y flwyddyn	**19,834**
Ceisiadau cymwys sy'n cael HEES	**1,033**
Ceisiadau cymwys sy'n cael HEES Plws	**13,533**
Ceisiadau cymwys sy'n cael grant rhannol	**5,268**
Eiddo a gwblhawyd	**13,739**

Tabl 2 - Ceisiadau cymwys

Dengys Tabl 2 fod 19,834 o blith y 27,796 o geisiadau a dderbyniwyd rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007 yn gymwys i gael cymorth.



Tabl 3 - Proffil buddiannau i gwsmeriaid HEES

Dengys Tabl 3 fod 1,033 o blith y cyfanswm o 13,739 o eiddo a gwblhawyd yn fodlon ar feini prawf HEES. Credyd Treth Gwaith yw'r prif fudd-dal cymhwyso ar gyfer HEES o hyd sy'n cyfrif am 54% o'r cartrefi a wnaeth gais yn ystod 2006-2007.

- Credyd Treth Gwaith 557
- Budd-dal Plant 420
- Credyd Treth Plant 438
- Budd-dal Treth Gyngor / Tai 47
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm 25
- Cymhorthdal Incwm 138
- Budd-dal Rhiant Unigol 112

Tabl 4 - Proffil buddiannau i gwsmeriaid HEES Plws

Dengys Tabl 4 bod o'r 19,834 ceisiadau cymwys, roedd 13,533 yn eiddo I derbyn HEES Plws. Lwfans Byw i'r Anabl yw'r prif fudd-dal cymhwyso ar gyfer HEES Plws o hyd sy'n cyfrif am 36% o'r cartrefi a hawliodd yn ystod 2006 - 2007.

- Lwfans Byw i'r Anabl 4,910
- Budd-dal Plant / Budd-dal Rhiant Unigol 744
- Credyd Pensiwn 2,354
- Budd-dal Treth Gyngor / Tai 856
- Lwfans Gweini 2,183
- Cymhorthdal Incwm 624
- Arall 194



Tabl 5 - Adroddiad Blynyddol Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref 2006/07

Dengys Tabl 5 nifer y mesurau a anfonebwyd yn ystod 2006-07, a oedd yn ymwneud â'r gwahanol fesurau a osodwyd, wedi'u dadansoddi ymhellach yn ôl y math o ddaliadaeth.

Perchen-feddiannaeth	Mesurau a gwblhawyd	Cost mesurau
Inswleiddio	7,402	£2,966,245.97
Gwresogi	4,894	£8,940,870.86
Mesurau Diogelwch	2,003	£198,209.22
Larymau Mwg	4,298	£193,049.99
CFLs	11,407	£104,691.82

Awdurdod Lleol	Mesurau a gwblhawyd	Cost mesurau
Inswleiddio	494	£134,040.29
Gwresogi	367	£611,664.40
Mesurau Diogelwch	132	£14,138.01
Larymau Mwg	38	£1,676.85
CFLs	887	£8,238.82

Preifat ar rent	Mesurau a gwblhawyd	Cost mesurau
Inswleiddio	301	£115,439.60
Gwresogi	297	£502,291.88
Mesurau Diogelwch	110	£12,078.62
Larymau Mwg	207	£9,778.20
CFLs	566	£5,175.45

Cymdeithas Tai	Mesurau a gwblhawyd	Cost mesurau
Inswleiddio	134	£39,822.32
Gwresogi	86	£126,627.16
Mesurau Diogelwch	31	£3,354.18
Larymau Mwg	8	£332.20
CFLs	210	£1,949.85

Tabl 6 - Gwelliannau SAP o dan HEES Cymru

Dengys Tabl 6 y gwelliannau a wnaed i eiddo drwy gyflwyno mesurau HEES. Yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru, dangosir y canlyniadau yn ôl arwynebedd llawr yr eiddo a gafodd ei drin.

SAP (Gweithdrefn Asesu Safonol) yw safon y Llywodraeth ar gyfer asesu cyfraddiad ynni anheddau ar raddfa o 0 i 120. Po uchaf y cyfraddiad, y mwyaf effeithlon yw'r annedd o ran ei defnydd o ynni. Mae'n ofynnol i eiddo newydd gydymffurfio â Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu, sydd fel arfer yn cynhyrchu cyfraddiadau SAP o 80+.

Ar gyfartaledd, mae gwelliannau SAP wedi cynyddu o 60 yn 2005-2006 i 65 yn 2006-2007.



Tabl 7 - Mesur a gwariant yn ôl ardal Awdurdod Lleol

Dengys Tabl 7 nifer y mesurau a anfonebwyd yn ystod 2006-2007, gan nodi manylion nifer y mesurau a osodwyd ynghyd â gwerth a dadansoddiad pellach yn ôl Ardaloedd Awdurdodau Lleol. Mae cyfansymiau gwario ar dudalennau 18 a 19 yn gynwysedig o gost yswiriant a gwarantid mesurol.

	Inswleiddio	Gwresogi	Mesurau Diogelwch	Larymau Mwg	CFLs	Cyfanswm
Ynys Môn	118	133	45	108	270	£289,499.16
Blaenau Gwent	111	213	36	70	263	£460,239.21
Pen-y-bont ar Ogwr	508	241	106	229	633	£744,391.46
Caerffili	807	483	255	335	1,136	£1,323,114.68
Caerdydd	478	351	118	201	796	£900,554.58
Sir Gaerfyrddin	481	196	111	375	783	£697,105.22
Ceredigion	204	89	54	141	332	£304,894.95
Conwy	487	253	107	126	545	£711,148.55
Sir Ddinbych	302	298	74	120	567	£704,504.99
Sir y Fflint	583	285	64	154	671	£785,921.23
Gwynedd	332	377	119	210	644	£777,852.54
Merthyr Tudful	151	92	56	165	261	£269,332.07
Sir Fynwy	226	95	39	61	321	£299,431.45
Castell-nedd Port Talbot	229	321	86	172	574	£761,619.23
Casnewydd	383	291	70	118	510	£720,185.00
Sir Benfro	568	297	100	371	728	£819,369.71
Powys	265	117	84	146	474	£353,999.17
Rhondda Cynon Taf	741	516	294	599	1,212	£1,414,589.40
Abertawe	618	389	236	430	986	£1,080,157.01
Bro Morgannwg	382	176	140	246	577	£492,687.29
Tor-faen	254	219	65	107	441	£528,061.72
Wrecsam	110	215	19	69	353	£446,004.00
						£14,884,662.93

Tabl 8 - Mesur a gwariant - rhaniadau

Dengys Tabl 8 y mathau o fesurau a osodwyd a chyfanswm y gwariant, a ddadansoddwyd ymhellach yn ôl Cynllun, Oedran ac Ardal.

Mesur a Gwariant yn ôl Cynllun	Inswleiddio	Gwresogi	Mesurau Diogelwch	Larymau Mwg	CFLs	Cyfanswm
HEES	516	426	43	306	1,086	£794,399.60
HEES Plws	5,516	5,183	2,197	4,147	11,815	£13,062,750.76
Rhannol	2,306	38	38	100	176	£1,027,239.57
						£14,884,662.93

Mesur a Gwariant yn ôl Oedran	Inswleiddio	Gwresogi	Mesurau Diogelwch	Larymau Mwg	CFLs	Cyfanswm
60-79	5,192	2,747	1,546	2,537	6,704	£7,962,037.94
Dros 80 oed	1,403	828	544	770	2,217	£2,350,383.29
O dan 60 oed	1,743	2,072	188	1,246	4,156	£4,572,241.70
						£14,884,662.93

Mesur a Gwariant yn ôl Ardal	Inswleiddio	Gwresogi	Mesurau Diogelwch	Larymau Mwg	CFLs	Cyfanswm
Canolbarth Cymru	1,518	699	349	1,033	2,317	£2,175,369.05
Gogledd Cymru	1,932	1,561	428	787	3,050	£3,714,930.47
De Cymru	4,888	3,387	1,501	2,733	7,710	£8,994,363.41
						£14,884,662.93

Cysylltiadau

Hayley Wildmore
Cyfarwyddwr, eaga Cymru
079 5680 7664
hayley.wildmore@eaga.com

Carole Williams
Swyddog Cyswllt y Llywodraeth
029 2027 7270
carole.williams@eaga.com

Janet Ball
Rheolwr Gweithrediadau
029 2027 7276
janet.ball@eaga.com

Linda Cook
Rheolwr Gosodwyr
029 2027 7265
linda.cook@eaga.com

eaga Cymru
Uned 4, Llys Tŷ Nant
Ffordd Tŷ Nant
Treforgan
Caerdydd CF15 8LW

Ffôn: 029 2027 7260
Ffacs: 029 2027 7261
E-bost: enquiries.wales@eaga.com

www.eaga.com